

Gareth Owens LL.B Barrister/Bargyfreithiwr
Chief Officer (Governance)
Prif Swyddog (Llywodraethu)



Swyddog Cyswllt:
Nicola Gittins 01352 702345
nicola.gittins@flintshire.gov.uk

At: Cyng Ian Roberts (Arweinydd)

Y Cynghorwyr: Sean Bibby, Chris Bithell, David Healey, Dave Hughes,
Paul Johnson, Christine Jones a Billy Mullin

Dydd Mercher, 22 Mehefin 2022

Annwyl Gyngorydd,

RHYBUDD O GYFARFOD ANGHYSBELL
CABINET
DYDD MAWRTH, 28AIN MEHEFIN, 2022 10.00 AM

Yn gywir

Steven Goodrum
Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

Bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw ar wefan y Cyngor. Bydd y ffrydio byw yn dod i ben pan fydd unrhyw eitemau cyfrinachol yn cael eu hystyried. Bydd recordiad o'r cyfarfod ar gael yn fuan ar ôl y cyfarfod ar <https://flintshire.publici.tv/core/portal/home>

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch ag aelod o'r Tîm Gwasanaethau Democrataidd ar 01352 702345.

R H A G L E N

1 YMDDIHEURIADAU

Pwrpas: Derbyn unrhyw ymddiheuriadau.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Pwrpas: I dderbyn unrhyw ddatganiad o gysylltiada chynghori's Aelodau yn unol a hynny.

YSTRID YR ADRODDIDAU CANLYNOL

ADRODDIAD GWEITHREDOL

DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD I WYBODAETH) 1985 - YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Mae'r eitem a ganlyn yn cael ei hystyried yn eitem eithriedig yn rhinwedd Paragraff(au) 14 Rhan 4 Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y cafodd ei diwygio)

Mae'r adroddiad yn cynnwys manylion contract arfaethedig ac mae budd y cyhoedd mewn dal y wybodaeth yn ôl yn gorbwyso budd y cyhoedd mewn datgelu nes bod y contractau wedi'u dyfarnu.

3 GWASANAETHAU CYMDEITHASOL - ADNODDAU A STAFFIO (Tudalennau 5 - 10)

Adroddiad Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) - Dirprwy Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles

Pwrpas: Ar gyfer cymeradwyaeth a chefnogaeth y Cabinet o'r argymhellion ar gyfer gweithlu drws ffrynt plant fel yr amlinellir yn yr adroddiad.

Sylwch, efallai y bydd egwyl o 10 munud os yw'r cyfarfod yn para'n hirach na dwy awr.

Nodyn Gweithdrefnol ar redeg cyfarfodydd

Bydd y Cadeirydd yn agor y cyfarfodydd ac yn cyflwyno eu hunain.

Bydd nifer o Gynghorwyr yn mynychu cyfarfodydd. Bydd swyddogion hefyd yn mynychu cyfarfodydd i gyflwyno adroddiadau, gyda swyddogion Gwasanaethau Democrataidd yn trefnu a chynnal y cyfarfodydd.

Gofynnir i bawb sy'n mynychu i sicrhau bod eu ffonau symudol wedi diffodd a bod unrhyw sain gefndirol yn cael ei gadw mor dawel â phosib.

Dylai'r holl feicroffonau gael eu rhoi "ar miwt" yn ystod y cyfarfod a dim ond pan fyddwch yn cael eich gwahodd i siarad gan y Cadeirydd y dylid eu rhoi ymlaen. Pan fydd gwahoddedigion wedi gorffen siarad dylen nhw roi eu hunain yn ôl "ar miwt".

Er mwyn mynegi eu bod nhw eisiau siarad bydd Cynghorwyr yn defnyddio'r cyfleuster 'chat' neu yn defnyddio'r swyddogaeth 'raise hand' sy'n dangos eicon codi llaw electronig. Mae'r swyddogaeth 'chat' hefyd yn gallu cael ei ddefnyddio i ofyn cwestiynau, i wneud sylwadau perthnasol ac yn gyfle i'r swyddog gynghori neu ddiweddarau'r cynghorwyr.

Bydd y Cadeirydd yn galw ar y siaradwyr, gan gyfeirio at aelod etholedig fel 'Cynghorydd' a swyddogion yn ôl eu teitl swydd h.y. Prif Weithredwr neu enw. O bryd i'w gilydd mae'r swyddog sy'n cynghori'r Cadeirydd yn egluro pwyntiau gweithdrefnol neu'n awgrymu geiriad arall ar gyfer cynigion er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor.

Os, a phan y cynhelir pleidlais, mi fydd y Cadeirydd yn egluro mai dim ond y rheiny sy'n gwrthwynebu'r cynnig/cynigion, neu sy'n dymuno ymatal a fydd angen mynegi hynny drwy ddefnyddio'r swyddogaeth 'chat'. Bydd y swyddog sy'n cynghori'r Cadeirydd yn mynegi os bydd y cynigion yn cael eu derbyn.

Os oes angen pleidlais fwy ffurfiol, bydd hynny yn ôl galwad enwau – lle gofynnir i bob Cynghorydd yn ei dro (yn nhrefn yr wyddor) sut mae ef / hi yn dymuno pleidleisio.

Yng nghyfarfodydd Pwyllgorau Cynllunio a Chyngor Sir mae amseroedd siaradwyr yn gyfyngedig. Bydd cloch yn cael ei chanu i roi gwybod i'r siaradwyr bod ganddyn nhw funud ar ôl.

Bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw ar wefan y Cyngor. Bydd recordiad o'r cyfarfod ar gael yn fuan ar ôl y cyfarfod ar <https://flintshire.publici.tv/core/portal/home>